# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0731(EPC) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**At Alun Cairns:**

Yn y Cyfarfod Llawn uchod addewais ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth ar y nifer o gerbydau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon oddi ar y ffordd a oedd wedi'u dal gan Awdurdodau'r Heddlu oedd yn defnyddio pwerau dan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Mae'r pwerau yn y Ddeddf yn rhoi hawl i swyddogion yr heddlu roi rhybuddion i reidwyr ac i gymryd y cerbydau modur sy'n cael eu camddefnyddio 'oddi ar y ffordd'. Deallaf fod y pedwar Heddlu yng Nghymru wedi cyflwyno'r pwerau hyn ar adegau gwahanol dros gyfnod o 12 - 18 mis o fis Ionawr 2003.

Isod fe welir y ffigurau mae Awdurdodau'r Heddlu wedi'u darparu gyda golwg ar yr holl gymryd cerbydau tir agored yng Nghymru:

Heddlu Dyfed Powys—3 cerbyd wedi'u cymryd (11 gyrrwr wedi'u rhybuddio)
Heddlu Gwent—18 cerbyd wedi'u cymryd (dim manylion am rybuddion ar gael)
Heddlu Gogledd Cymru—16 cerbyd wedi'u cymryd (dim manylion am rybuddion ar gael)
Heddlu De Cymru—34 cerbyd wedi'u cymryd (dim manylion am rybuddion ar gael)

Credaf fod y ffigurau hyn yn dangos yn eglur fod yr Heddlu'n defnyddio'u pwerau i helpu i ymdrin â'r broblem hon. Fel y gwyddoch yr wyf hefyd wedi'u hannog i weithio gydag awdurdodau lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i fabwysiadu camau ymarferol eraill hefyd fel y gall cynnydd pellach ddigwydd yn hyn o beth.

## Gwybodaeth ychwanegol at y Ddadl am Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ym Mywyd Cymunedau a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**At Owen John Thomas:**

Yn ystod y drafodaeth ar amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ym mywyd y gymuned ar 10 Mai, fe ymgymerais i'ch darparu â gwybodaeth ar sut i gael gafael ar adnoddau hanes teuluol, fel y cyfrifiad, ar-lein.

Un o'r adnoddau ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer ymchwil i hanes teuluol yw Ancestry.com. Gwefan yw hon sy'n seiliedig ar danysgrifiadau, ac mae'n rhoi mynediad i gyfrifiadau a mathau eraill o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i gasglwyr achau. Yn sgîl cais gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, dyfarnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy CyMAL, grant i'w gwneud yn bosibl i bob gwasanaeth archif lleol gynnig mynediad ar-lein am ddim i Ancestry.com hyd 31 Mawrth 2007. Mae'r ddarpariaeth hon yn unigryw yn y DU ac mae CyMAL wrthi'n ymchwilio ar hyn o bryd, ynghyd â Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ynghylch sut y gallwn ymestyn y mynediad am ddim y tu hwnt i 2007.

Mae Archifdy Morgannwg wedi'i leoli o fewn eich awdurdod unedol cartref, sef Caerdydd, yn Adeilad Morgannwg, King Edward VII Avenue, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NE (rhif ffôn 02920780282). Yr wyf yn siŵr y byddai staff yr archifdy yn hapus iawn i ddangos ichi sut i ddefnyddio Ancestry.com.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0735(EPC), gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

**At Rosemary Butler:**

Yn dilyn eich ymholiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mai 2006, ynghylch trafodaethau gyda'm cyd-Weinidogion yn Iwerddon i gytuno ar ddull cyffredin o ran sut yr ydym yn ymdrin â Theithwyr, yr wyf bellach mewn sefyllfa, fel yr addawyd, i adrodd ar ymchwiliadau a wnaed gan swyddogion ar fy rhan.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â chydweithwyr gwastraff yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ac y mae'r trafodaethau wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gynlluniau neu fentrau penodol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon gan y gymuned Teithwyr yn y naill wlad na'r llall.

Fodd bynnag, gallaf eich hysbysu bod Uned Sipsiwn a Theithwyr yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar fin cyhoeddi pecyn cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr ynghylch sut i ymdrin â materion ymddygiad gwrth-gymdeithasol ehangach, megis tipio anghyfreithlon, niwsans sŵn a materion yn ymwneud â da byw yn crwydro ynghyd ag arweiniad pellach ar y system gynllunio fel y mae'n berthnasol i Deithwyr. Unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael, byddwn yn ystyried sut y gellir rhaeadru'r cyngor hwn i awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Ddadl Fer ar Forglawdd Hafren ar 10 Mai, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**At Alun Ffred Jones:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am ddiweddariad ar adleoli aráe lanw Marine Current Turbines (MCT) yn nyfroedd Cymru oddi ar arfordir sir Benfro.

Rhoddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru arian amcan 1 i MCT i nodi lleoliadau posibl o fewn dyfroedd Cymru a fyddai'n addas ar gyfer prosiect aráe arddangos o safbwynt dyfnder y dŵr, yr adnoddau y byddai eu hangen o ran y ffrwd lanw a materion amgylcheddol.

Mae'r cwmni wedi penodi ymgynghorydd sydd wedi nodi saith safle generig o amgylch arfordir Cymru a fyddai'n addas ar gyfer gofynion penodol technoleg MCT. Ar ôl nodi'r safleoedd hyn bu'r cwmni'n ymgynghori â rhanddeiliaid megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu (Western Power a Scottish Power), Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol ac RSPB. Yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad cam cyntaf hwn, detholwyd dau safle lle gellir asesu effeithiau amgylcheddol ymhellach ac mewn dyfnder.

Caf ar ddeall fod y cwmni'n gobeithio cwblhau'r asesiad amgylcheddol pellach hwn yn y 18 mis nesaf ac ar sail yr ymchwil byddant mewn sefyllfa i gyflwyno cais am gydsyniad ar gyfer aráe arddangos 10 MW yn nyfroedd Cymru.

Ymdrinnir â'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r safleoedd dewisol yn fasnachol gyfrinachol ac mae'n siŵr gennyf y byddwch yn gwerthfawrogi na fedraf ddarparu manylion pellach penodol ar hyn o bryd.